Help os ydych yn sâl neu'n anabl

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir o fis Hydref 2009. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith.

Cynnwys

Beth os wyf am weithio?.....5

Pa raglenni all fy helpu gyda gwaith?.....6

Hyfforddiant.....10

Hunangyflogaeth 11

Beth os nad wyf yn ennill llawer o arian o'r gwaith? 11

A allaf weithio a chael budd-daliadau hefyd? 12

Beth os na allaf weithio'n llawn amser? ..12

Rwyf wedi clywed am 'y symbol anabledd', beth ydyw?.....13

Budd-daliadau y gallech eu cael os ydych yn sâl 14

Tâl Salwch Statudol.....15

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.....16

Budd-daliadau y gallech eu cael os ydych yn anabl 19

Lwfans Byw i'r Anabl.....20

Lwfans Gweini.....21

Beth os bydd gennyf salwch terfynol?.....22

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol.....23

Taliad Niwed drwy Frechiad.....24

Pensiwn Anabledd Rhyfel 26

Gofalwyr 26

Help gyda chostau tai 28

Help gyda chostau iechyd 29

Help i fyw'n annibynnol 30

Pa help arall y gallaf ei gael? 30

Credydau Yswiriant Gwladol 30

Help gan y Gronfa Gymdeithasol 31

Delio â dyled 31

Edrych ymlaen a chynllunio ar gyfer y dyfodol 32

Beth arall y dylwn ei wybod? 33

Rheoli eich materion 34

Cysylltiadau defnyddiol 35

Beth os wyf am weithio?

Os bydd angen cymorth ychwanegol arnoch i weithio oherwydd eich salwch neu anabledd, gall ymgynghorydd y Ganolfan Byd Gwaith siarad â chi am y gwaith rydych am ei wneud, yr hyn y gallwch ei wneud, a'r cynllun gorau ar gyfer eich symud i mewn i waith.

Nid dim ond eich helpu i ddod o hyd i swydd y gall ein hymgynghorwyr ei wneud. Gallant hefyd eich helpu i aros mewn swydd. Os ydych yn pryderu y gallech golli eich swydd oherwydd salwch neu anabledd, cysylltwch ag ymgynghorydd cyn gynted â phosibl.

Gall eich ymgynghorydd:

- eich helpu i weithio allan beth rydych yn ei wneud orau, yr hyn y gallwch ei wneud, a sut i gyrraedd eich nod
- eich hysbysu am swyddi sy'n cyfateb eich sgiliau - os byddwch yn dymuno, gallai eich ymgynghorydd siarad â chyflogwr ar eich rhan
- eich cyfeirio at raglenni sy'n helpu pobl sâl neu anabl i ddod o hyd i waith neu i barhau mewn gwaith
- eich helpu i gael hyfforddiant ar gyfer gwella eich sgiliau
- egluro i chi sut y gallai'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd eich helpu yn y gwaith, a
- rhoi manylion i chi am grwpiau anabledd lleol.

Pa raglenni all fy helpu gyda gwaith?

Llwybrau at Waith

Mae Llwybrau at Waith yn helpu pobl sy'n cael budd-daliadau penodol gan eu bod yn sâl neu'n anabl i ddod o hyd i waith neu i baratoi ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Bydd cydweithredu â Paratoi at Waith fel arfer yn amod i gael budd-dal llawn os ydych yn hawlio:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Budd-dal Analluogrwydd, neu
- budd-daliadau eraill oherwydd eich bod yn sâl neu'n anabl.

Neu, gallwch wirfoddoli i gael cymorth ychwanegol a ddarperir.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth i unigolion ac amrywiaeth eang o gymorth.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi ddod i gyfres o gyfweliadau gydag ymgynghorydd personol a fydd yn:

- trafod eich cyfleoedd gyda chi
- datblygu cynllun gweithredu personol gyda chi i'ch helpu i gael y swydd rydych am ei chael
- cyfrifo faint yn well eich byd y gallech fod mewn gwaith, ac
- esbonio'r cymorth a allai fod ar gael i'ch helpu i ddechrau gweithio ac i aros mewn gwaith.

Ar ôl y cyfweliad cyntaf, efallai y gwelwch rywun o un o'n sefydliadau partner yn hytrach nag ymgynghorydd y Ganolfan Byd Gwaith. Bydd hyn yn dibynnu ar ble rydych yn byw.

Y Fargen Newydd ar gyfer pobl anabl

Os ydych yn cael budd-daliadau oherwydd eich bod yn sâl neu'n anabl, mewn rhai ardaloedd o'r wlad gallwch gymryd rhan yn y Fargen Newydd ar gyfer pobl anabl.

I ganfod a yw'r Fargen Newydd ar gyfer pobl anabl ar gael yn eich ardal chi cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Mynediad at Waith

Gall Mynediad at Waith eich helpu os bydd eich iechyd yn effeithio ar y ffordd y gwnewch eich swydd. Mae'n rhoi cyngor a chymorth i chi a'ch cyflogwr am gostau ychwanegol a allai fod gennych o ganlyniad i'ch anghenion iechyd.

Efallai y bydd Mynediad at Waith yn talu tuag at yr offer sydd ei angen arnoch yn y gwaith, addasu eiddo i fodloni eich anghenion, neu weithiwr cynnal. Gall hefyd dalu tuag at gostau teithio i'r gwaith os na allwch ddefnyddio trenau neu fysiau, ac i gael cyfathrebydd ar gyfer cyfweliadau, os bydd angen un arnoch.

Paratoi at Waith

Rydym yn teilwra Paratoi ar Waith at eich anghenion chi, ond fel arfer, mae'n cynnwys gwneud profiad gwaith tymor byr, di-dâl gyda chyflogwr lleol.

Gall Paratoi at Waith eich helpu i baratoi eich hun at waith. Byddwn yn gweithio allan beth sydd ei angen arnoch o'r rhaglen, a gallwn gynnig amrywiaeth o gymorth i'ch helpu i ddod o hyd i waith a pharhau mewn gwaith.

Nid oes ffordd arbennig o gymryd rhan yn Paratoi at Waith. Yn dibynnu ar eich anghenion, gall bara o gwpwl o oriau i nifer o wythnosau. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cymryd rhan am rhwng chwech a 13 wythnos.

CAM AT WAITH

Gall CAM AT WAITH eich helpu os credwch fod angen llawer o gymorth arnoch cyn gwneud swydd ar eich pen eich hun. Mae'n ymwneud â bodloni eich anghenion er mwyn i chi gael swydd a'i chadw.

Efallai y byddwch yn gwybod am GAM AT WAITH o dan ei hen enw, 'cyflogaeth wedi'i cynnal'.

Cynllun Cyflwyno Swydd

Os byddwch yn dod o hyd i swydd y byddech yn ei hoffi ond nad ydych chi neu eich cyflogwr yn siŵr p'un a fydd yn addas, efallai y gallai'r Cynllun Cyflwyno Swydd helpu.

O dan y cynllun, rydym yn helpu'r cyflogwr drwy dalu tuag at gostau am yr ychydig wythnosau cyntaf, hyd nes y bydd y ddau ohonoch yn siŵr bod y swydd yn addas i chi.

Treialon gwaith

Mae treialon gwaith yn rhoi'r cyfle i chi roi cynnig ar swydd gyda chyflogwr.

Byddwch yn parhau i gael eich budd-daliadau tra byddwch ar y treial, felly mae'n ffordd ddiogel o ganfod a yw swydd yn addas i chi.

Os cewch gynnig y swydd ar ddiwedd eich treial gwaith a'ch bod yn derbyn y swydd, efallai y gallwch gael rhai budd-daliadau a chredydau treth o hyd.

Cynllun Teithio i Gyfweliad

Os ydych yn cael budd-daliadau oherwydd eich bod yn sâl neu'n anabl, gall y cynllun teithio i gyfweliad eich helpu i dalu am gostau teithio i gyfweliad y tu allan i'r ardal rydych yn gweithio ynddi fel arfer.

Mae hyn yn golygu y gallwch chwilio am waith mewn ardal llawer ehangach i ddod o hyd i'r swydd sy'n addas i chi. Efallai y gallwch hefyd gael arian ar gyfer aros dros nos os byddwn yn cytuno.

Gwaith a ganiateir

Mae gwaith a ganiateir yn waith y gallwch ei wneud os cewch fudd-daliadau am eich bod yn sâl neu'n anabl, megis:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Budd-dal Analluogrwydd, neu
- Credydau Yswiriant Gwladol.

Os ydych yn ystyried gwneud unrhyw waith, pa un a yw'n waith â thâl neu'n ddidâl, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith bob amser i sicrhau bod y gwaith yn bodloni'r amodau ar gyfer gwaith a ganiateir. Os byddwch yn

gwneud gwaith nad yw'n bodloni'r amodau, gallech golli eich budd-dal.

Efallai y bydd angen i ni hefyd newid faint o Gymhorthdal Incwm rydych yn ei gael.

Os na allwch ddweud wrthym cyn i chi ddechrau gweithio, mae'n rhaid i chi ffonio neu ysgrifennu atom cyn gynted â phosibl.

Hyfforddiant

Ydych chi'n methu â chael hyfforddiant yn eich ardal leol oherwydd eich anabledd? Os felly, efallai y gallwch fynychu coleg hyfforddiant preswyl. Mae'r Rhaglen Hyfforddiant Preswyl yn helpu oedolion di-waith hirdymor sydd ag anableddau sy'n ei gwneud yn anoddach iddynt weithio. Mae'n eu helpu i gael swydd, profiad gwaith neu hyfforddiant.

Mewn coleg, cewch hyfforddiant arbenigol sy'n fwy addas i anghenion pobl anabl. Mae llawer o gyrsiau y gallwch eu dilyn fel hyn. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Talu am hyfforddiant

Efallai y bydd yn rhaid i chi gael help i dalu am ffioedd cyrsiau, teithio neu unrhyw gostau eraill y bydd yn rhaid i chi eu talu o bosibl. Ewch i'n gwefan yn www.canolfanbydgaith.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth.

Os ydych yn poeni y gallech fod yn waeth eich byd yn ariannol os byddwch yn dilyn cwrs hyfforddi, siaradwch ag ymgynghorydd.

Bydd hyfforddiant yn debygol o effeithio ar eich budd-daliadau. Ond efallai y gallwch gael help arall. Os byddwch yn ymuno â'r Fargen Newydd ac yna'n dechrau cwrs hyfforddi cymeradwy, gallech gael arian ychwanegol gyda'ch budd-dal.

Hunangyflogaeth

Gall ddod yn hunangyflogedig eich helpu i wneud bywoliaeth drwy weithio i chi'ch hun, os oes gennych y syniad busnes cywir a'ch bod am lwyddo.

Cysylltwch â:

- Cymru – www.business-support-wales.gov.uk
- Lloegr – www.businesslink.gov.uk
- Yr Alban – www.bgateway.com

am syniadau am ble i fynd am gymorth, o gynllunio busnes a chael yr arian i ddechrau'r busnes, at sicrhau bod gennych ddigon o arian i fyw tra eich bod yn ei sefydlu.

Beth os nad wyf yn ennill llawer o arian o'r gwaith?

Credyd Treth Gwaith

Os ydych yn gweithio ond eich bod ar incwm isel, caiff hwn ei ychwanegu at eich enillion i lefel benodol.

Gallech gael Credyd Treth Gwaith os ydych ar fudd-daliadau anabledd ac yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos.

Llinell Gymorth Credydau Treth

Ffôn:
0845 300 3900

Ffôn testun:
0845 300 3909

Dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm

Gwefan:
www.hmrc.gov.uk

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 37

Gallwch naill ai weithio i chi eich hun neu i rywun arall.

A allaf weithio a chael budd-daliadau hefyd?

Gallwch gael Lwfans Gweini neu Lwfans Byw i'r Anabl pa un a ydych yn gweithio neu beidio.

Gall gofalwyr sy'n cael Lwfans Gofalwr ennill hyd at swm penodol, ar ôl lwfansau - nid oes terfyn ar nifer yr oriau y maent yn eu gweithio.

Os ydych yn cael budd-dal sy'n gysylltiedig ag incwm fel Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Budd-dal Tai neu Gredyd Pensiwn, efallai y bydd eich enillion yn cael eu hystyried.

Beth os na allaf weithio'n llawn amser?

Mae llawer o opsiynau pan ddaw at ddod o hyd i waith. Yn ogystal â gweithio'n llawn amser gallech ystyried y canlynol.

- Gwaith rhan amser. Gallech weithio nifer penodol o oriau neu ddyddiau bob wythnos i gyd-fynd â phethau eraill rydych yn eu gwneud.
- Rhannu swydd. Weithiau, gall dau unigolyn rannu un swydd llawn amser, fel bod y ddau ohonoch yn gweithio oriau rhan amser.
- Gweithio yn ystod y tymor. Gallech beidio â gweithio yn ystod gwyliau ysgol.

- Gwaith gwirfoddol. Gallech wneud gwaith di-dâl i ddysgu mwy am swydd benodol a dysgu sgiliau newydd. Gallai hyn eich helpu i gael swydd â thâl.
- Gweithio hyblyg. Gallai hyn olygu dewis yr amseroedd dechrau a gorffen gwaith, neu weithio oriau hirach ar rai dyddiau fel y gallwch gymryd mwy o amser i ffwrdd.
- Gwaith asiantaeth. Gallech weithio am gyfnod penodol o amser mewn swydd llawn amser neu ran amser. Gallai hyn olygu cymryd lle rhywun pan fydd i ffwrdd o'r gwaith. Mae hyn hefyd yn cael ei alw'n 'tempio'.

Rwyf wedi clywed am 'y symbol anabledd', beth ydyw?

Bydd cyflogwr sydd am ddefnyddio'r symbol anabledd yn gwneud cais i'r Ganolfan Byd Gwaith. Os bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn penderfynu y gall ei ddefnyddio, gall ei ddangos ar hysbysebion swydd a ffurflenni cais. Mae'n ei wneud yn glir ei fod wedi cytuno i weithio'n gadarnhaol gyda phobl anabl a'u helpu i aros mewn gwaith.

Budd-daliadau y gallech eu cael os ydych yn sâl

Os ydych yn sâl, mae'r help y gallech ei gael yn dibynnu p'un a ydych mewn gwaith ar hyn o bryd.

Os...	Gallech gael..	Gweler tudalen...
Oes gennych swydd ond na allwch weithio oherwydd eich bod yn sâl	Tâl Salwch Statudol	15
Ni allwch gael Tâl Salwch Statudol	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	16
Rydych yn hunangyflogedig ond ni allwch ddechrau gweithio oherwydd eich bod yn sâl	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	16
Rydych yn ddi-waith ond yn methu â chwilio am waith oherwydd eich bod yn sâl	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	16

Tâl Salwch Statudol?

Beth yw Tâl Salwch Statudol?

Os na allwch weithio oherwydd eich bod yn sâl, efallai bod gan eich cyflogwr drefniadau tâl salwch sy'n gymwys i chi. Eich cyflogwr fydd yn penderfynu pa dâl salwch a gewch.

Ond gall pawb sy'n bodloni amodau penodol gael math sylfaenol o dâl salwch - fe'i gelwir yn Dâl Salwch Statudol.

Efallai y bydd eich cyflogwr yn talu Tâl Salwch Statudol os na allwch weithio am bedwar diwrnod neu fwy yn olynol. Byddwch yn cael Tâl Salwch Statudol am y diwrnodau y byddech fel arfer yn eu gweithio - mae'n rhaid iddo fod yn un diwrnod mewn wythnos o leiaf.

Os bydd eich cyflogwr yn talu tâl salwch i chi a'i fod yn fwy na Thâl Salwch Statudol, yna nid oes rhaid iddynt dalu Tâl Salwch Statudol i chi hefyd.

A allaf gael Tâl Salwch Statudol?

Er mwyn cael Tâl Salwch Statudol mae'n rhaid eich bod

- yn gyflogedig, ac
- yn ennill mwy na swm penodol.

Cyhyd â'ch bod wedi treulio rhywfaint o amser yn gweithio – hyd yn oed os yw am ddiwrnod - gallech gael Tâl Salwch Statudol o hyd. Ond ni allwch ei gael os ydych wedi bod yn cael rhai budd-daliadau eraill fel Lwfans Mamolaeth neu Fudd-dal Analluogrwydd.

Os nad ydych yn siŵr a allech gael Tâl Salwch Statudol, dylech ofyn i'ch cyflogwr.

Beth os na all fy nghyflogwr dalu Tâl Salwch Statudol i mi?

Os na all eich cyflogwr dalu Tâl Salwch Statudol i chi, mae'n rhaid iddynt roi ffurflen (SSP1W) i chi sy'n egluro pam. Pan fydd gennych y ffurflen hon cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i ofyn am wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Beth yw Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?

Mae Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn helpu pobl gyda salwch neu anabledd i symud i mewn i waith. I gwsmeriaid newydd, mae wedi cymryd lle Budd-dal Analluogrwydd a Chymhorthdal Incwm a delir oherwydd salwch neu anabledd.

Tra eich bod yn cael y lwfans, rydym yn cynnig cymorth wedi'i bersonoli a help ariannol i chi. Byddwch yn gallu siarad ag ymgynghorydd personol â hyfforddiant arbennig. Byddwch hefyd yn gallu manteisio ar amrywiaeth eang o wasanaethau eraill wedi eu cynllunio i'ch helpu i symud i mewn i waith addas.

Os yw eich salwch neu anabledd yn effeithio'n ddifrifol ar eich gallu i weithio, gall y lwfans gynnig cymorth ariannol ychwanegol.

Sut i wneud cais

Ffôn:
0800 012 1888

Ffôn testun:
0800 023 4888

Dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 37

A allaf gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?

Mae'n bosibl y gallech gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os oes gennych salwch neu anabledd sy'n effeithio ar eich gallu i weithio, a:

- nid ydych yn gweithio neu rydych yn ddi-waith
- rydych yn hunangyflogedig
- rydych yn gweithio i gyflogwr ond ni allwch gael Tâl Salwch Statudol, neu
- rydych wedi bod yn cael Tâl Salwch Statudol ond mae wedi dod i ben bellach.

Gallai Lwfans Cyflogaeth a Chymorth fod:

- yn seiliedig ar gyfraniadau os ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, neu
- yn seiliedig ar incwm os nad oes gennych ddigon o arian neu gynilion, neu nad ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Bydd ymgynghorydd o'r Ganolfan Byd Gwaith yn gallu dweud wrthych am eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Am y saith diwrnod cyntaf eich salwch, mae'n bosibl y bydd ond yn rhaid i chi ddweud wrthym pam eich bod yn sâl. Ar ôl hynny, bydd yn rhaid i chi gael nodyn salwch gan feddyg. Yna bydd yn rhaid i chi anfon eich nodyn salwch atom.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Faint y byddaf yn ei gael?

Ni fyddwch yn cael unrhyw arian am dri diwrnod cyntaf eich cais. Gelwir y rhain yn 'ddiwrnodau aros'. Mewn rhai achosion, efallai na fydd diwrnodau aros yn berthnasol, er enghraifft os ydych eisoes wedi cael diwrnodau aros fel rhan o gais blaenorol am fudd-dal neu gyfnod o Dâl Salwch Statudol.

Ar ôl hyn cewch gyfradd sefydlog am 13 wythnos gyntaf eich cais. Gallai cyfradd wahanol fod yn gymwys os oes gennych bartner. Rydym yn galw hyn yn 'gyfradd cyplau'.

Beth os wyf wedi hawlio Budd-dal Analluogrwydd yn flaenorol?

Os byddwch yn rhoi'r gorau i gael Budd-dal Analluogrwydd am gyfnod, ac yna bod angen i chi ei hawlio eto, mae rhai amgylchiadau lle y gallech gael y budd-dal hwn yn lle Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Mae hyn yn dibynnu ar faint yn ôl y cawsoch Fudd-dal Analluogrwydd ddiwethaf. Gofynnwch i ymgynghorydd egluro hyn i chi.

Sut byddaf yn cael fy nhalu?

Rydym yn talu budd-daliadau i mewn i'ch cyfrif. Dyma'r ffordd orau o gael eich budd-dal oherwydd gallwch ddewis sut a phryd yr hoffech gymryd arian allan o'ch cyfrif. Gall eich cyfrif fod gyda banc, cymdeithas adeiladu neu Swyddfa'r Post.

Budd-daliadau y gallech eu cael os ydych yn anabl

I wneud cais am fudd-daliadau anabledd, nid oes gwahaniaeth a ydych yn gweithio ai peidio.

Mae budd-daliadau anabledd yn dibynnu ar:

- eich oedran
- pa mor ddifrifol yw eich anabledd, neu
- sut y daethoch yn anabl.

Os ydych yn...	Gallech gael...	Gweler tudalen...
Anabl ac o dan 65 oed	Lwfans Byw i'r Anabl	20
Anabl ac yn 65 oed neu'n hŷn	Lwfans Gweini	21
Anabl oherwydd niwed drwy frechiad	Taliad Niwed drwy Frechiad	24
Cyn-filwr anabl	Pensiwn Anabledd Rhyfel	26
Anabl oherwydd damwain neu salwch yn y gwaith	Lwfans Anabledd Anafiadau Diwydiannol	23

Ymholiadau am fudd-daliadau (pobl anabl neu ofalwyr)

Ffôn:
0800 882 200

Ffôn testun:
0800 243 355

Ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am i 6.30pm, dydd Sadwrn 9am i 1pm.

Gwefan:
www.direct.gov.uk

Lwfans Byw i'r Anabl

Beth yw Lwfans Byw i'r Anabl?

Gall Lwfans Byw i'r Anabl eich helpu gyda chostau ychwanegol os ydych o dan 65 oed a bod gennych anabledd corfforol neu feddyliol.

Dylai eich anabledd fod yn ddifrifol i'r graddau bod angen rhywun i helpu i ofalu amdanoch. Hyd yn oed os nad ydych yn cael y cymorth sydd ei angen arnoch, gallwch barhau i gael Lwfans Byw i'r Anabl.

Gallech hefyd gael y lwfans os ydych yn cael anhawster wrth gerdded.

A allaf gael Lwfans Byw i'r Anabl?

Efallai y gallwch gael Lwfans Byw i'r Anabl os ydych o dan 65 oed a bod un o'r pwyntiau canlynol yn berthnasol i chi.

- Bod angen help arnoch gyda gofal personol neu rywun i'ch goruchwylio er eich diogelwch eich hun neu ddiogelwch rhywun arall.
- Ni allwch gerdded, eich bod yn ei chael hi'n anodd cerdded, neu bod angen help arnoch i symud o gwmpas.

Hefyd, mae'n rhaid bod un, neu'r ddau, o'r pwyntiau hyn wedi bod yn berthnasol i chi am o leiaf dri mis a'u bod yn debygol o barhau am chwe mis arall.

Nid oes gwahaniaeth a ydych yn gweithio ai peidio. Ni fydd unrhyw gynilion neu incwm sydd gennych yn effeithio ar eich cais.

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 37

O oes gennych salwch terfynol, gweler tudalen 22.

Gyda pha gostau y mae Lwfans Byw i'r Anabl yn helpu?

Mae dwy ran i'r Lwfans Byw i'r Anabl:

- rhan 'gofal' - os oes angen help arnoch gyda gofal personol neu oruchwyliaeth, a
- rhan 'symudedd' – os ydych yn cael anawsterau wrth gerdded neu os oes angen help arnoch i symud o gwmpas.

Faint o Lwfans Byw i'r Anabl y gallaf ei gael?

Gallwch gael arian ar gyfer un rhan yn unig, neu'r ddwy ran. Mae'r swm y byddwch yn ei gael yn seiliedig ar faint o help sydd ei angen arnoch.

Rwyf wedi clywed am Symudedd. Beth ydyw?

Os byddwch yn cael y gyfradd uchaf o ran symudedd Lwfans Byw i'r Anabl, efallai y gallwch ddefnyddio eich Lwfans i gyd neu ran ohono i brynu neu brydlesu car, cadair olwyn â phŵer neu sgwter o'r cynllun Symudedd.

Symudedd

Ffôn:
0845 456 4566

Ffôn testun:
0845 675 0009

Gwefan:
www.motability.co.uk

Lwfans Gweini

Beth yw Lwfans Gweini?

Gall Lwfans Gweini eich helpu gyda chostau ychwanegol a allai fod gennych os ydych yn 65 oed neu'n hŷn a bod gennych anabledd corfforol neu feddyliol.

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 37

Dylai eich anabledd fod yn ddifrifol i'r graddau bod angen rhywun i helpu i ofalu amdanoch. Hyd yn oed os nad ydych yn cael y cymorth sydd ei angen arnoch, gallwch barhau i gael Lwfans Gweini.

A allaf gael Lwfans Gweini?

Gallech gael Lwfans Gweini os:

- ydych yn 65 oed neu'n hŷn
- na allwch gael Lwfans Byw i'r Anabl, ac
- rydych wedi bod angen help gyda gofal personol, neu rywun i'ch goruchwylio er eich diogelwch eich hun neu ddiogelwch rhywun arall, am o leiaf chwe mis.

Ni fydd unrhyw gynilion neu incwm sydd gennych yn effeithio ar eich cais fel arfer.

Faint y gallaf ei gael?

Mae'r gyfradd y gallech ei chael yn seiliedig ar faint o help sydd ei angen arnoch.

Beth os bydd gennyf salwch terfynol?

Mae gennym reolau arbennig i bobl sydd â salwch terfynol.

Os oes gennych afiechyd cynyddol ac nad oes disgwyl i chi fyw am fwy na chwe mis arall, gallwch gael y gyfradd uchaf o Lwfans Gweini neu ran gofal uchaf Lwfans Byw i'r Anabl ar unwaith.

Gofynnwch i'ch meddyg, meddyg arbenigol neu ymgynghorydd i roi ffurflen i chi y gallwch ei hanfon atom gyda'ch ffurflen gais.

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?

Beth yw Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?

Arian ychwanegol yw hwn os ydych yn sâl neu'n anabl oherwydd damwain neu afiechyd a achoswyd gan waith.

Cwmpesir dros 70 o afiechydon

Rhai o'r afiechydon mwyaf cyffredin yw:

- afiechydon a achosir drwy weithio gydag asbestos
- y fogfa
- broncitis cronig ac emffysema
- byddardod
- niwmoconiosis (clefyd ar yr ysgyfaint yn sgîl anadlu llwch mwynol)
- tenosynovitis (chwyddo oddi amgylch gewyn), ac
- afiechyd penodol A11 (a elwid yn flaenorol yn gyflwr y bysedd gwyn).

A allaf gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?

Mae'n rhaid eich bod wedi cael y clefyd o ganlyniad i wneud math arbennig o waith ar 5 Gorffennaf 1948 neu ar ôl hynny pan roeddech wedi'ch cyflogi ym Mhrydain Fawr.

Efallai y bydd angen i chi gael archwiliad meddygol. Bydd hyn yn ein helpu i benderfynu graddau eich anabledd a pha mor hir y bydd eich anabledd yn para.

Ni fyddwn yn talu Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol i chi os gwnaethoch y gwaith a'ch gwnaeth yn sâl pan oeddech yn hunan-gyflogedig, neu cyn 5 Gorffennaf 1948.

I gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith ewch i www.canolfanbydgwaith.gov.uk Neu gwelwch y cofnod yn eich llyfr ffôn.

Os byddaf yn cael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, a allaf gael help ychwanegol?

Gallech hefyd gael budd-daliadau eraill oherwydd salwch neu anabledd a achoswyd gan waith.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Taliad Niwed drwy Frechiad

Beth yw Taliad Niwed drwy Frechiad?

Mae hwn yn un taliad di-dreth i'ch helpu i dalu am gostau ychwanegol y gallech eu hwynebu o ganlyniad i'ch anabledd.

Nid oes gwahaniaeth os oes gennych gynilion neu arian arall yn dod i mewn, gallwch gael Taliad Niwed drwy Frechiad o hyd.

Uned Taliad Niwed drwy Frechiad

Ffôn:
01772 899 944

Ffôn testun:
01772 562 202

Ddydd Llun i ddydd lau 9am i 5pm, dydd Gwener 9am i 4.30pm

Gwefan:
www.direct.gov.uk

A allaf gael Taliad Niwed drwy Frechiad?

Efallai y gallech gael Taliad Niwed drwy Frechiad os:

- ydych wedi cael anabledd difrifol o ganlyniad i frechiad yn erbyn unrhyw un o'r afiechydon a restrir yn y Ddeddf Taliadau Niwed drwy Frechiad
- cawsoch eich brechiad yn y Deyrnas Unedig neu Ynys Manaw neu fel rhan o driniaeth feddygol y lluoedd arfog tra roeddech dramor, neu
- cawsoch y brechiad pan oeddech o dan 18 oed (oni bai ei bod ar gyfer polio, rwbela neu meningitis C).

Mae'n rhaid i chi wneud cais am Daliad Niwed drwy Frechiad rhwng eich pen-blwydd yn 2 oed a'ch pen-blwydd yn 21 oed, neu o fewn chwe blynedd i'r dyddiad y cawsoch eich brechu.

Os yw person wedi marw, gellir gwneud cais am Daliad Niwed drwy Frechiad o hyd ar eu rhan.

Faint yw'r Taliad Niwed drwy Frechiad?

Un taliad o £120,000 yw Taliad Niwed drwy Frechiad. Nid oes rhaid i chi dalu treth ar y swm hwn, ond gallai'r arian hwn effeithio ar faint y gallwch ei gael o unrhyw fudd-daliadau eraill.

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 37

Pensiwn Anabledd Rhyfel

Beth ydyw?

Taliad di-dreth neu bensiwn wythnosol a delir i gyn-filwyr sydd wedi cael eu hanafu neu wedi cael salwch tra roeddent yn y lluoedd arfog yw Pensiwn Anabledd Rhyfel.

A allaf gael Pensiwn Anabledd Rhyfel?

Gallech gael Pensiwn Anabledd Rhyfel o dan y Cynllun Pensiynau Rhyfel os ydych wedi cael anaf neu'n anabl:

- yn ystod cyfnod o ryfel, neu
- wrth wasanaethu gyda Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi, ac
- nad ydych yn gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi mwyach.

Mae'n rhaid bod eich anabledd wedi'i achosi cyn 6 Ebrill 2005. Os cafodd ei achosi wrth wasanaethu yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi ar 6 Ebrill 2005 neu ar ôl hynny, dylech wneud cais o dan Gynllun lawndal y Lluoedd Arfog.

Gallech hefyd gael ychwanegiadau neu lwfansau eraill. Gall ymgynghorydd egluro'r cymysgedd o fudd-daliadau eraill, a fydd yn dibynnu ar eich amgylchiadau eich hun.

Asiantaeth Personél y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr.

Ffôn:
0800 169 2277

Ffôn Testun:
0800 169 3458

Gwefan:
www.veterans-uk.info

Gofalwyr

Os oes angen gofalwr arnoch i ofalu amdanoch, nid oes rhaid iddynt fod yn rhywun sy'n gofalu fel gwaith. Gallai fod yn bartner, yn berthynas, yn ffrind neu'n gymydog i chi.

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 37

Lwfans Gofalwr

Mae Lwfans Gofalwr ar gyfer pobl sy'n gofalu am rywun sy'n anabl, pu'n a ydynt yn perthyn iddynt neu'n byw gyda hwy ai peidio.

Efallai y gall gofalwr gael Lwfans Gofalwr os ydynt yn 16 oed neu'n hŷn, ac yn treulio o leiaf 35 awr yr wythnos yn gofalu am berson sy'n cael:

- Lwfans Gweini
- Lwfans Byw i'r Anabl (ar y gyfradd ganol neu'r gyfradd uchaf ar gyfer gofal personol)
- Lwfans Gweini Cyson (ar y gyfradd uchaf arferol neu'n uwch gyda Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol), neu
- gyfradd sylfaenol (diwrnod llawn) gyda Phensiwn Anabledd Rhyfel.

Holwch eich ymgynghorydd budd-daliadau cyn i'ch gofalwr wneud cais am unrhyw fudd-daliadau. Gallai eu cais effeithio ar eich budd-dal.

Os yw eich gofalwr yn gwneud hyn am y tro cyntaf, gallant gael rhagor o wybodaeth yn www.direct.gov.uk/carers

Sut byddaf yn cael fy nhalu?

Rydym yn talu budd-daliadau i mewn i'ch cyfrif. Dyma'r ffordd orau o gael eich budd-dal oherwydd gallwch ddewis sut a phryd yr hoffech gymryd arian allan o'ch cyfrif. Gall eich cyfrif fod gyda banc, cymdeithas adeiladu neu Swyddfa'r Post.

I gysylltu â'ch cyngor lleol:

ewch i
www.direct.gov.uk

Neu gallwch weld eu manylion yn y llyfr ffôn.

Help gyda chostau tai

Mae dau fath o help y gallech eu cael tuag at eich costau tai.

- Mae Budd-dal Tai yn eich helpu i dalu rhywfaint o'ch rhent.
- Mae Budd-dal Treth Cyngor yn help tuag at eich treth cyngor. Mae budd-dal treth cyngor yn talu am wasanaethau a ddarperir gan eich cyngor. Mae'r swm rydych yn ei dalu yn dibynnu ar werth eich tŷ.

A allaf gael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor?

Efallai y gallwch gael y naill fudd-dal neu'r ddau fudd-dal os ydych ar incwm isel a bod gennych:

- gynilion sy'n llai na £16,000, a
- rhent neu dreth cyngor i'w dalu.

Nid oes rhaid i chi fod yn cael budd-daliadau eraill i gael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor. Hyd yn oed os ydych yn gweithio a bod rhywfaint o gynilion gennych, gallech gael help o hyd.

Nid yw Budd-dal Tai yn talu tuag at forgeisi ac fel arfer nid yw'n cwmpasu taliadau gwasanaeth.

Beth arall y dylwn ei wybod?

Gallech gael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor os ydych hefyd yn cael:

- Cymhorthdal Incwm

- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, neu
- Credyd Pensiwn.

Ond efallai na fydd y swm yn ddigon i gwmpasu eich holl gostau rhent neu dai. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor, cysylltwch â'ch cyngor lleol.

Help gyda chostau iechyd

Efallai y gallech gael help gyda rhai costau iechyd gan gynnwys presgripsiynau'r GIG, triniaeth ddeintyddol y GIG a rhai costau teithio os ydych ar incwm isel neu'n cael:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm
- Cymhorthdal Incwm, neu
- y rhan gwarantedig o Gredyd Pensiwn.

I gael gwybod mwy am help gyda chostau iechyd gan y GIG, ewch i'r wefan ar gyfer yr ardal lle rydych yn byw:

- Cymru
  www.nhsdirect.wales.nhs.uk/small/cy/hafan/gwybodaethiechyd
- Lloegr
  www.dh.gov.uk/helpwithhealthcosts
- Yr Alban
  www.scotland.gov.uk/publications

Help i fyw'n annibynnol

Os oes gennych anabledd difrifol, efallai y gallwch gael cymorth i'ch helpu i fyw'n annibynnol, yn hytrach na mewn cartref gofal.

Mae'r Gronfa Byw yn Annibynnol yn cyfrannu tuag at gost gofal personol.

I gael rhagor o wybodaeth, gallwch ofyn i adran gwasanaethau cymdeithasol eich cyngor lleol (a elwir yr adran gwaith cymdeithasol yn yr Alban).

Neu cysylltwch â'r Gronfa Byw yn Annibynnol.

Ffôn: 0845 601 8815

Ffôn testun: 0845 601 8816

Gwefan: www.ilf.org.uk

Pa help arall y gallaf ei gael?

Credydau Yswiriant Gwladol

Mae'n angen eich bod wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol neu y cewch eich trin fel pe baech wedi eu talu er mwyn gwneud cais am bethau fel Pensiwn y Wladwriaeth a rhai budd-daliadau eraill.

Weithiau, efallai y gallwch gael credydau yn lle talu Yswiriant Gwladol. Gallai hyn ddigwydd i chi os ydych yn cael budd-daliadau penodol, neu os y'ch nodir fel rhywun na all weithio.

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 37

Ychwanegir y credydau at unrhyw Yswiriant Gwladol rydych wedi ei dalu eich hun. Gall y rhain eich helpu i ennill yr hawl i gael Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol.

Er mwyn cael gwybod a allwch gael y credydau hyn, neu os ydych eisoes wedi cael rhai, ffoniwch y llinell gymorth credydau Yswiriant Gwladol.

Ffôn: 0845 302 1479

Ddydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm.

Help gan y Gronfa Gymdeithasol

Os ydych ar incwm isel ac yn ei gweld hi'n anodd talu rhai costau pwysig unigol, efallai y gallwch gael benthyciad grant gan y Gronfa Gymdeithasol.

Gall y rhain gwmpasu eitemau i'r tŷ, dillad, rhai costau byw, rhai costau teithio, gwres, pethau ar gyfer babi newydd, neu gostau angladd.

Delio â dyled

Os ydych yn cael trafferth â dyledion, ewch i www.direct.gov.uk lle gallwch gael help a chyngor.

Mae rhai cynghorau lleol a chanolfannau cyngor annibynnol yn rhoi cyngor am ddim ar ddyledion. Edrychwch yn eich llyfr ffôn lleol neu ar wefan eich cyngor lleol.

Llinell Ddyled Genedlaethol yw hon sy'n rhoi cyngor cyfrinachol ac annibynnol ar sut i ddelio â phroblemau â dyledion ac arian.

Ffôn: 0808 808 4000

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 37

Ddydd Llun i ddydd Gwener 9am i 9pm, ddydd Sadwrn 9.30am i 1pm.

Gwefan: www.nationaldebtline.co.uk

Edrych ymlaen a chynllunio ar gyfer y dyfodol

Efallai bod oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn ymddangos yn bell i ffwrdd, ond wrth i chi agosáu ato bydd gennych nifer o opsiynau a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar eich materion ariannol. Po gynharaf y byddwch yn dechrau cynllunio, y mwyaf tebygol y bydd gennych sicrwydd ariannol yn ddiweddarach yn eich bywyd.

Ar hyn o bryd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yw 60 i ferched a 65 i ddynion. Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i Ferched yn codi mewn camau rhwng mis Ebrill 2010 a 2020 o 60 i 65 oed.

Gallwch ddefnyddio cyfrifiannell oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn www.direct.gov.uk/spacalculator i weithio eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth allan.

Ail Bensiwn y Wladwriaeth

Gallech gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth os byddwch yn cael Budd-dal Analluogrwydd tymor hir neu Lwfans Anabledd Difrifol a ddiogelir, a:

- na fyddwch yn gweithio o gwbl, neu
- na fyddwch yn ennill llai na swm penodol y flwyddyn.

I gysylltu â'r Gwasanaeth Pensiwn

Ffôn:
0845 60 60 275

Ffôn testun:
0845 60 60 295

Gwefan:
www.direct.gov.uk/pensiynau

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 37

Beth arall y dylwn ei wybod?

Eich hawliau

Mae gan bobl anabl yr un hawliau â phawb arall. O hawliau yn y gwaith i hawliau mynediad, mae cyfreithiau i'ch diogelu. Ewch i www.direct.gov.uk/disability i gael rhagor o wybodaeth.

Gall y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol roi cyngor i chi ar eich hawliau. Gallent hefyd roi cymorth i chi os byddant yn credu na chawsoch eich trin yn gyfartal. Gallwch gysylltu â'r Comisiwn drwy fynd i'w gwefan yn www.equalityhumanrights.com

Help ymarferol

I gael help ymarferol, gofynnwch i'ch gwasanaethau cymdeithasol lleol (a elwir weithiau yn 'adran gwaith cymdeithasol' yn yr Alban). Gallai cymorth fod yn:

- 'cymorth yn y cartref' ar gyfer pethau fel glanhau, siopa a choginio prydau bwyd
- teclynnau cymorth arbennig neu addasiadau i'ch cartref
- canolfannau dydd i roi seibiant i chi
- gofal dydd os oes gennych blentyn
- dod o hyd i le arall i fyw os oes angen i chi symud
- dod â phrydau bwyd i chi os ydych yn ei gweld hi'n anodd coginio, a
- cyngor ar drafnidiaeth.

I gysylltu â'ch cyngor lleol :

ewch i:
www.direct.gov.uk/cy

Neu gallwch weld eu manylion yn y llyfr ffôn.

Help gyda pharcio

Mae'r cynllun Bathodyn Glas yn rhoi manteision parcio i bobl anabl sy'n cael anawsterau wrth gerdded. Cysylltwch â'ch cyngor lleol i gael rhagor o fanylion.

Rheoli eich materion

Efallai yr hoffech ofyn i rywun rydych yn ei adnabod i'ch cynrychioli a hawlio eich budd-daliadau ar eich rhan.

Dim ond os na allwch reoli eich arian eich hun y gallwch wneud hyn. Gallwch drefnu hefyd i rywun gasglu eich arian budd-dal ar eich rhan.

Cysylltiadau defnyddiol

Mae'r adran hon yn cynnwys manylion cyswllt sefydliadau a allai fod yn ddefnyddiol i chi. Gallwch hefyd edrych o dan 'Charitable and Voluntary Organisations' neu 'Social Service and Welfare Organisations' yn yr Yellow Pages.

Chwilio am waith

Os ydych yn chwilio am waith, gallwch chwilio drwy ein rhestr o swyddi ar-lein yn www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Neu ffoniwch y Ganolfan Byd Gwaith ar 0845 606 7890 (ffôn testun 0845 604 4022) i gael gweld pa swyddi sydd ar gael.

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm, dydd Sadwrn 9am i 1pm.

Y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr

Mae'r Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr yn rhoi cymorth i bobl anabl, p'un a allant weithio ai peidio.

Mae'r Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr yn talu Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gofalwr a Thaliadau Niwed drwy Frechiad.

Ymholiadau am fudd-daliadau (pobl anabl neu ofalwyr).

Ffôn: 0800 88 22 00

Ffôn testun: 0800 243 355

Ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am i 6.30pm, dydd Sadwrn 9am i 1pm.

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 37

Directgov

Mae Directgov yn rhoi gwybodaeth gan adrannau llywodraeth y DU am bynciau yn amrywio o ddiogelwch teithio i anghenion addysgol arbennig a gwasanaeth lleol y GIG. Ewch i www.direct.gov.uk am ragor o wybodaeth.

Galw Iechyd Cymru

Gwasanaeth cyngor ar iechyd yng Nghymru a Lloegr yw hwn.

Ffôn: 0845 46 47

Ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Gwefan (Cymru): www.nhsdirect.wales.nhs.uk

Gwefan (Lloegr): www.nhsdirect.nhs.uk

NHS24

Gwasanaeth cyngor ar iechyd yn yr Alban yw hwn.

Ffôn: 0845 424 24 24

Ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Gwefan: www.nhs24.com

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 37

Costau galwadau

Roedd y costau yn gywir ar y dyddiad sydd ar gefn y daflen hon.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai cost galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT fod yn fwy na 4c y funud gyda thâl o 9c ar gyfer gwneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffonau Testun

Mae ein rhifau ffôn tesun ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd gan ambell lyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i weithredu egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

ISBN 978-1-84763-209-8
DWP1026W | f2.0 (Hydref 2009) | v2.0 (October 2009)

Hoffem gael eich barn am y daflen hon.

Atebwch y cwestiynau isod, rhwygwch y slip a'i ddychwelyd at y cyfeiriad rhadbost dros y dudalen. Mae eich atebion yn gwbl gyfrinachol ac fe'i defnyddir i wella'r daflen hon.

Pa mor ddefnyddiol oedd y daflen hon wrth ateb eich cwestiynau?

☐ defnyddiol iawn ☐ eithaf defnyddiol ☐ ddim yn ddefnyddiol ☐ dim o gwbl

Pa mor hawdd ydoedd i ddod o hyd i r wybodaeth yr oedd ei hangen arnoch?

☐ defnyddiol iawn ☐ eithaf defnyddiol ☐ ddim yn ddefnyddiol ☐ dim o gwbl

Oes unrhyw dudalennau yn y daflen hon y byddech yn eu gwella mewn unrhyw ffordd? Os felly, pa dudalennau a sut?

Ydych chi'n credu y byddwch yn cyfeirio at y daflen hon eto yn y dyfodol?

☐ byddaf ☐ na fyddaf

Oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y daflen hon?

Nid oes yn rhaid i chi gwblhau'r rhan hon, ond mae'n ein helpu i ddeall mwy am ein cwsmeriaid.

Ydych chi'n: ☐ gwryw ☐ benyw

Beth yw eich oedran? _____

Beth yw eich cod post? _____

Dylid defnyddio'r ffurflen hon i roi sylwadau ar y daflen hon yn unig. Bydd ymatebion yn mynd i gwmni sy'n darparu adroddiadau am y ffurflenni a dderbyniwyd ganddynt, a dim ond i gael gwell syniad o sut i wella rydym yn ei ddefnyddio. Ni all yr Adran Gwaith a Phensiynau ateb cwestiynau unigol am fudd-daliadau neu lwfansau a ofynnir ar y daflen hon.

DWP1026W | f2.0 (Hydref 2009) | v2.0 (October 2009)

Freepost RLUG-AXKG-BGXJ
Department for Work and Pensions
Leaflet Feedback
Jobcentre Plus Marketing
Level 1
Steel City House
West Street
Sheffield
S1 2GQ